

# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 47  
22/02/21

## lesu'n ysgrifennu yn y llwch

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref  
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.  
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



### Paratowyd y pecyn hwn gan:

Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,  
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru  
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Elin Bryn Williams  
a Gwyn Rhydderch

An English  
version  
is also  
available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddsbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag [Ahughes@saintygyuned.org](mailto:Ahughes@saintygyuned.org)

# Stori



## Fersiwn Beibl.net

Aeth Iesu i Fynydd yr Olewydd. Pan wawriodd hi y bore wedyn, roedd Iesu yn ôl yng nghwrt y deml. Dyma dyrfa yn casglu o'i gwmpas, ac eisteddodd Iesu i'w dysgu nhw. Tra oedd yn dysgu'r bobl dyma rai o'r arbenigwyr yn y Gyfraith a'r Phariseaid yn dod ato gyda gwraig oedd wedi gwneud rhywbeth drwg iawn. Dyma nhw'n ei rhoi hi i sefyll yn y canol o flaen pawb, ac yna medden nhw wrth Iesu, "Athro, mae'r wraig hon wedi cael ei dal yn gwneud rhywbeth drwg iawn. Yn y Gyfraith mae Moses yn dweud fod gwagedd o'r fath i gael eu llabyddio i farwolaeth gyda cherrig. Beth wyt ti'n ei ddweud am y mater?" (Roedden nhw'n defnyddio'r cwestiwn fel trap, er mwyn cael sail i ddwyn cyhuddiad yn ei erbyn.) Ond dyma Iesu'n plygu i lawr a dechrau ysgrifennu gyda'i fys yn y llwch ar lawr. Wrth iddyn nhw ddal ati i bwysu arno i ateb, edrychodd i fyny a dweud wrthyn nhw, "Os oes un ohonoch chi ddynion erioed wedi pechu, taflwch chi'r garreg gyntaf ati hi." Yna plygodd eto ac ysgrifennu ar lawr.



Ar ôl clywed beth ddwedodd e, dyma'r dynion yn gadael. Y rhai hynaf aeth gyntaf, a'r lleill yn dilyn, nes oedd neb ar ôl ond Iesu, a'r wraig yn dal i sefyll o'i flaen. Edrychodd i fyny eto, a gofyn iddi, "Wel, wraig annwyl, ble maen nhw? Oes neb wedi dy gondemnio di?"

"Nac oes syr, neb" meddai.

"Dw innau ddim yn dy gondemnio di chwaith," meddai Iesu. "Felly dos, a pheidio pechu fel yna eto."

*Ioan 8:1-11 Beibl.net (wedi ei addasu)*

## Fersiwn syml

Un bore aeth Iesu i'r Deml. Casglodd tyrfa o bobl o'i gwmpas a dechreuodd Iesu sgwrsio gyda nhw. Daeth rhai o arbenigwyr y Gyfraith a'r Phariseaid at Iesu gyda gwraig oedd wedi gwneud rhywbeth drwg iawn. Rhoddwyd y wraig i sefyll o flaen y dyrfa, dywedodd un o'r arbenigwyr i Iesu, "Mae'r wraig hon wedi gwneud rhywbeth drwg iawn. Yn ôl Cyfraith Moses dylai gael ei llabyddio i farwolaeth â cherrig. Beth sydd gent ti i'w ddweud am hyn?" Plygodd Iesu i lawr a dechreuodd ysgrifennu yn y llwch ar lawr, edrychodd i fyny ar y bobl a dywdodd, "Os nad ydych erioed wedi gwneud rhywbeth drwg cewch chi daflu'r garreg gyntaf ati hi." Fesul un aeth y bobl i ffwrdd gan adael y wraig ar ei phen ei hun gyda Iesu. Gofynnodd Iesu iddi, "Ble mae pawb? Oes neb wedi dy gondemnio di?" Atebodd hithau, "Nac oes syr. Neb!" Dywedodd Iesu, "Dwi ddim yn dy gondemnio chwaith. Dos a phaid â pechu eto."



# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti erioed wedi cael dy ddal yn gwneud rhywbeth nad oeddet ti i fod i'w wneud? Gefaist ti dy gosbi?
2. Yn y stori, beth wnaeth Iesu pan ddaeth y dynion â'r wraig ato?
3. Pam wyt ti'n meddwl fod y dynion i gyd wedi mynd i ffwrdd heb wneud dim byd i'r wraig?
4. Beth ddywedodd Iesu wrth y wraig?
5. Beth wyt ti'n meddwl y buasai Iesu yn ei ddweud wrthynt am i ti wneud rhywbeth drwg?



# Gweddi fer


O Dduw, Diolch i Ti am Iesu. Diolch i Ti am y ffordd rwyd Ti'n barod i faddau i mi pan fydda i'n dweud 'sori' am wneud rhywbeth drwg.

Plîs helpa fi i beidio â gwneud pethau drwg.

Amen.

## Ysgrifennodd Iesu yn y Llwch

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther



O hyd ac o hyd, roedd athrawon pwysig y Deml yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i gael gwared ar Iesu oherwydd eu bod yn genfigennus ohono gan fod yr holl bobl yn gwranddo arno ac yn ei ddilyn.



Daeth yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid â gwaig oedd wedi gwneud rhywbeth drwg iawn at Iesu er mwyn iddo ei barnu ond yr hyn roedden nhw'n geisio ei wneud mewn gwirionedd oedd cael Iesu i drwbwl.




Roedden nhw eisiau lladd y ddynes drwy luchio cerrig ati. Roedd arni gywilydd ac roedd arni ofn hefyd. Roedd hi'n gwybod ei bod wedi torri un o orchmynion Duw ac y byddai'n cael ei chosbi.



Plygodd Iesu i lawr ac ysgrifennodd yn y llwch. "Pwy bynnag sydd erioed wedi torri gorchmynion Duw sydd â'r hawl i'w barnu hi," meddai Iesu. Yna daliodd ati i ysgrifennu.



Dechreuodd pob un copa walltrog deimlo'n euog am y pethau roedden nhw wedi eu gwneud yn anghywir. Does neb yn berffaith. Fesul un dyna nhw'n gadael. Doedd yna neb ar ôl i gondemnio na barnu'r wraig.



Safodd Iesu a gofynnodd i'r wraig, "Ble mae'r bobl oedd yn dy farnu?" Atebodd hithau, "Does yna neb ar ôl, Arglwydd." Yna dywedodd Iesu, "Dydw innau ddim yn dy farnu chwaith."



"Dos adref a phaid ag ymddwyn fel yna eto." Wedi cael maddeuant ac yn rhydd o'i phechod aeth y wraig adref â'i chalon yn llawn llawenydd a gobaith. Roedd Iesu wedi ei haichu ac wedi rhoi bywyd newydd iddi.





Ysgrifennodd Iesu y stori wir hon yn y Beibl. Mae'r hanes yn ein dysgu i beidio â beirniadu a barnu pobl eraill oherwydd does yr un ohonom yn berffaith.



Fideo o'r stori  
<https://youtu.be/Gf94QAIKb8>

Fideo o gân yr wythnos  
<https://youtu.be/YdPEyKqJ7dg>



## Gweddi Greadigol

### 'Sori' yn y tywod

Mae pob un ohonon ni'n gwneud ac yn dweud pethau weithiau sy'n anghywir.

Mae dweud sori yn ffordd o gyfaddef dy fod yn anghywir, a dy fod eisiau gwneud pethau'n iawn.

Mae Cristnogion yn credu, pan fyddwn ni'n dweud sori wrth Dduw, bod Duw yn golchi'r pethau anghywir i gyd i ffwrdd. Maddeuant ydy'r gair am hyn.

Oes yna rywbeth sydd angen i ti ddweud 'sori' amdano fo? Ysgrifenna weddi sy'n dweud sori, yn y tywod. Pan fyddi di'n barod, brwsia fo i gyd i ffwrdd wedyn.



*'Os gwnawn ni gyffesu ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg, am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn.'*  
 1 Ioan 1:9

### Gweddi papur tywod

#### Byddi angen:

- Papur tywod (neu 'emery board')
- Darnau o wllân


#### Beth i'w wneud:

- Teimla'r papur tywod. Sut mae'n teimlo? Dydy o ddim yn esmwyth, mae'n gras. Weithiau mae bywyd yn debyg i deimlad y papur – yn annifyr neu'n anesmwyth. Doedd y wraig yn y stori ddim yn cael amser hawdd, ond helpodd Iesu hi.
- Meddylia am bobl rwyt ti'n eu hadnabod sy'n mynd trwy amser annifyr neu anodd.
- Gofynna i Dduw eu helpu.
- Wrth i ti siarad gyda Duw, gosoda'r darnau o wllân ar y papur tywod.
- Mae hyn fel arwydd dy fod yn gofyn i Dduw wneud eu bywyd yn fwy esmwyth.





# Posau

Fedri di aildrefnu'r llythrennau i ddarganfod geiriau'r adnod?




Mae'r llun wedi cael ei gymysgu.

Fedri di ei ail-lunio gyda phob darn yn sgwâr cywir y grid i ddangos y llun.



Fedri di roi geiriau'r adnod yn y lle iawn?  
Mae ambell i air a llythyren yn y pos uchaf yn barod i ti.




# Sialensau


## Beth sydd y tu mewn?

Edrycha ar rai ffrwythau gwahanol. Sut fyddet ti'n disgrifio'r hyn rwyf ti'n ei weld ar y tu allan?

Pilia'r ffrwythau neu eu torri ar agor a chael golwg agos ar y tu mewn - mae'n wahanol iawn!




Weithiau rydyn ni fel hyn. Rydyn ni'n edrych fel ein bod ni'n garedig ac yn barod i helpu ar y tu allan ond mae'n tu mewn yn wahanol. Meddylia am hyn a gofynna i Dduw dy helpu di i fod yn dda ar y tu mewn hefyd.



## Yn eisiau

Gwna boster "Yn Eisiau" ("Wanted"). Erstalwm byddai'r posteri hyn yn cael eu rhoi i fyny er mwyn tynnu sylw pobl at droseddwr oedd angen ei ddal. Ond yn hytrach na chreu poster i ddal rhywun am wneud drwg gwna un gwobrwyo unigolyn am weithred dda. Rho lun un o'r teulu ar y poster ac os gweli di fo neu hi'n gwneud gweithred dda rho seren yn y boced.



## Lluniau tywod

Gwna lun o'r stori gan ddefnyddio tywod.

## Calonnau maddeugar

Crea galon fel yr un sydd yn y llun ac ysgrifenna arni'r geiriau, "Mae'r byd angen calonnau maddeugar" a gosoda hi yn dy ffenest.



D G P H R N W A B O C E A H R N P W G T D S L F O

F F S P B I O R Z W A E

R N W A E C A F L S P B T

Y	N	W	I	T	S	E	W	C	U	F	C
S	D	S	P	B	Y	S	A	O	CH	W	LL
G	W	R	A	I	G	N	Y	N	A	Y	G
R	E	E	I	LL	O	TH	U	D	F	L	W
I	U	I	D	L	P	I	I	E	D	M	R
F	D	Y	S	G	U	A	S	M	P	E	D
E	R	W	A	LL	E	R	L	N	L	T	Y
N	O	G	E	S	D	F	CH	I	Y	A	N
N	R	P	I	B	R	Y	I	O	G	E	I
U	TH	R	E	D	Y	C	Y	H	U	DD	O
E	A	T	S	CH	CH	T	Y	R	F	A	N
PH	A	G	U	I	U	D	N	B	L	A	D

# Chwilair

- |           |            |
|-----------|------------|
| ATEB      | EDRYCH     |
| ATHRO     | GWRAIG     |
| BYS       | IESU       |
| CANOL     | LLAWR      |
| CONDEMNIO | LLWCH      |
| CWESTIWN  | PAID       |
| CYFRAITH  | PECHU      |
| CYHUDDO   | PLYGU      |
| DAL       | PHARISEAID |
| DRWG      | SEFYLL     |
| DWEUD     | TEML       |
| DYNION    | TYRFA      |
| DYSGU     | YSGRIFENNU |

C R N W A B O C E A H R N P W G T D S L F W A B O H

## Pwddin tywod

Yn y stori ysgrifennodd Iesu yn y tywod.

### Cynhwysion:

- Bisgedi 'Digestive'
- Potyn bach o iogwrt blas fanila neu daffi (neu unrhyw flas wyt ti eisiau!)
- Rholbren
- Bag plastig cegin glân
- Gwydr
- 2 lwy

### Dull:

- Torra 4 bisgedi 'Digestive' i mewn i'r bag plastig glân.
- Dal pen y bag ar gau a defnyddia'r rholbren i falu'r bisgedi yn friwsion mân.
- Rho lond llwy o'r briwsion bisgedi yng ngwaelod y gwydr a'u gwneud yn wastad.
- Rho lond llwy o iogwrt ar ben y bisgedi.
- Gwna hyn eto nes dy fod wedi defnyddio'r iogwrt a'r briwsion bisgedi – fel yn y llun.
- Mwynha!



## Rysáit





Yn y stori roedd Iesu yn ysgrifennu yn y tywod cyn ateb cwestiynau'r dynion.  
Yn y gemau hyn rwyf tithau'n cael cyfle i ysgrifennu mewn tywod.

### Ar gyfer y ddwy gêm byddi angen:

- Tywod (neu halen bwrdd rhad)
- Hambwrdd neu dun i ddal y tywod
- Darn tenau o bren neu bensil

## Dot-i-ddot tywod

### Sut i chwarae:

- Rho'r tywod ar yr hambwrdd neu'r tun.
- Os ydy'r tywod yn sych rho ychydig o ddŵr ynddo – ond ddim gormod.
- Defnyddia'r pren tenau (neu bensil) i wneud patrwm o ddotiau fel yn y llun.
- Gyda'r pren (pensil) tynna linellau rhwng y dotiau i greu llun.



## OXO tywod

### Sut i chwarae:

- Byddi angen 2 chwaraewr.
- Rho'r tywod ar yr hambwrdd neu'r tun.
- Os ydy'r tywod yn sych rho ychydig o ddŵr ynddo – ond ddim gormod.
- Defnyddia'r pren tenau (neu bensil) i wneud grid fel yn y llun.
- Mae un chwaraewr yn dewis O a'r llall yn dewis X.
- Yn eu tro mae pob chwaraewr yn rhoi ei O neu X yn y grid.
- Yr enillydd yw'r un sy'n llwyddo i greu llinell OXO ar draws, i fyny neu i lawr.

## Canu

Paid â phwyntio bys i gyhuddo rhywun arall.  
Wrth i ti wneud hyn mae tri yn pwyntio'n ôl at ti.  
Mae pawb wedi pechu - wedi methu safon Duw  
OND daeth Iesu er mwyn inni gael maddeuant.

“Dwi wedi dod i alw pechaduriaid i droi at Dduw.  
Dwi wedi dod i alw pechaduriaid i droi at Dduw.  
Dwi wedi dod i alw pechaduriaid i droi at Dduw.”  
Dyma eiriau Iesu.

Hawlfraint 2021 Andy Hughes

Gwylwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar <https://youtu.be/YdPEyKqJ7dg>

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - [ahughes@saintygyuned.org](mailto:ahughes@saintygyuned.org)

